

HYSBYSIAD PWYSIG I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR



GWYBODAETH A CHAU FFYRDD

Lleoliad: Y Stryd Fawr, Coed Duon **Oriau Agor:** 9.00am - 6.00pm

Cau Ffyrdd a Systemau Traffig: Cau'r Stryd Fawr o'i chyffordd â Stryd y Bont a Heol Pentwyn o 7.00pm ar 28.06.19 tan 10.00pm ar 29.06.19. Bydd Stryd y Bont a Heol Pentwyn yn aros ar agor. Bydd cau ffordd treigl ychwanegol o 12.00pm - 12.45pm yn digwydd ar gyfer gorymdaith y carnifal o Le'r Farchnad/Gorsaf Bysiau Coed Duon, i lawr Heol Gordon ac i'r cau ffordd a fydd mewn lle ar Stryd Fawr.

Mynediad i Fanwerthwyr: Dylai manwerthwyr nad oes ganddynt fynediad i'r lôn gefn oddi ar yr ardal cau ffyrdd ar Stryd Fawr Coed Duon drefnu i dderbyn nwyddau sy'n ofynnol yn ystod penwythnos y digwyddiad cyn 7.00pm ar 28.06.19 neu rhwng 1.00am a 6.00am ar 29.06.19. Bydd unrhyw fanwerthwyr gyda pharcio preifat sydd angen mynediad i'r safle yn cael caniatâd i gael mynediad hyd at 8.30am ac ar ôl 7.00pm ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin. Os oes angen mynediad arnoch cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk / 01443 866390 fel y gellir llunio rhestr o fanwerthwyr ar gyfer y stiward cau ffyrdd.

Mynediad i Breswylwyr: Bydd gwahardd aros a llwytho ar wahanol ardaloedd yn Heol Gordon, Heol Albany, Heol Attlee a Heol Bloomfield i gynorthwyo gyda'r llwybrau bws amgen ar gyfer y digwyddiad. Gosodir conau 'dim aros' yn yr ardaloedd hyn ac ni chaniateir parcio o 7.00pm ar 28.06.19 tan 10.00pm ar 29.06.19. Bydd preswylwyr Heol Wesley yn derbyn tocynnau i gael mynediad i'w heiddo trwy Heol Gefn o 7.00pm ar 28.06.19 tan 10.00pm ar 29.06.19. Dyma'r unig lwybr mynediad i'ch eiddo yn ystod cyfnod y cau ffordd ac mae'n rhaid i docynnau fod yn weladwy wrth fynd i mewn. Bydd y rhwystr yn cael ei ddatgloi yn ystod cyfnod y cau ffordd ac yn cael ei staffio gan stiward yn ystod oriau agor y digwyddiad. Bydd staff diogelwch yn monitro'r rhwystr dros nos yn rhannol. Os

nad oes rhywun ar gael pan fyddwch chi'n cyrraedd/gadael y safle, sicrhewch fod y rhwystr ar gau wedi hynny. Os byddwch angen rhagor o docynnau ffoniwch 01443 866390 neu e-bostiwch digwyddiadau@caerffili.gov.uk. Sylwer y bydd Maes Parcio Wesley yn parhau i fod yn faes parcio talu ac arddangos er bod mynediad i'r maes parcio yn gyfyngedig; os byddwch yn parcio yma sicrhewch eich bod yn cadw at y ffioedd a nodir ar yr hysbysiadau talu ac arddangos.

Tacsis: Ni chaniateir tacsis ar y safle yn ystod y cau ffordd.

Arosfannau/Llwybrau Bws: Nid yw'r cau ffordd yn effeithio ar unrhyw arosfannau bws. Bydd llwybrau amgen o gwmpas Heol Gordon, Heol Albany, Heol Attlee, Heol Bloomfield, Heol Pentwyn a Choedlan Pentwyn yn gweithredu. Bydd conau 'dim aros' yn cael eu gosod ar hyd yr ardaloedd hyn i gynorthwyo â'r llwybr bysiau dros dro ac fe fydd parcio yn cael ei gyfyngu yn yr ardaloedd hyn.

Diolch am eich amser a'ch cydweithrediad yn ystod y digwyddiad hwn

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'r Rheolwr Canol Trefi ar **01443 866221** neu e-bost canoltrefi@caerffili.gov.uk; neu Ganolfan Ymwelwyr Caerffili ar **029 2088 0011** neu e-bost croesocaerffili@caerffili.gov.uk I gymryd rhan yn y digwyddiad, neu i roi adborth ar ôl y digwyddiad, cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau ar **01443 866390** neu digwyddiadau@caerffili.gov.uk.



I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwyddiadau, dilynwch Croeso Caerffili ar Twitter, Instagram a Facebook.



visitcaerphilly

Gwybodaeth am y digwyddiad: www.visitcaerphilly.com